**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 1 MEHEFIN 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Shan Rees (Cadeirydd), Philip Davies, Janet Knott, Meinir James, Nicola Jones, Elfyn Williams, Jenny Jones ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Viv Davies, Eifion Jones, Rheinallt Jones a Cynghorydd Sir Tyssul Evans.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod blynyddol a cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd Mai 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
4. **FP29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y cais cynllunio.
7. **Goleuedigaeth Sir Gaerfyrddin –** Cafwyd cadarnhad bod y panel dehongli côd QR bron wedi'i gwblhau, a rhagwelir y bydd y daith yn cael ei lansio ar 23/24ain Medi. Derbyniwyd awgrym gan y prosiect y gellid cynnal digwyddiad yn yr ardal dros y penwythnos hwnnw i nodi a dathlu'r prosiect. Cadarnhawyd fod yr Eglwys yn bwriadu cynnal digwyddiad. Cysylltwyd hefyd gan 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' a oedd yn ystyried rhaglen ac yn chwilio am gysylltiadau posibl. Bydd aelodau'n darparu gwybodaeth i'r Clerc i'w hanfon ymlaen.
8. **Cyngor Sir Caerfyrddin – Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder 20mya –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
9. **Damweiniau ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ymateb i gais y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ynghyd â chynigion gan y Cyngor Sir. Nodwyd bu bron i ddamwain pellach digwydd yn y lleoliad yn diweddar. Bydd gweithgaredd Gwylio Cyflymder Cymunedol posib yn cael ei godi gyda'r Heddlu.
10. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.

11. **Digwyddiad Hyfforddi Diffibriliwr –** Cadarnhaodd y Clerc fod digwyddiad hyfforddi diffibriliwr wedi ei drefnu gyda Ambiwlans Sant Ioan ar gyfer 11eg Gorffennaf, 7.30yh. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu yn y Gymuned.
12. **Digwyddiadau ymgynghori Ynni Bute** – Derbyniwyd ymateb i sylwadau'r Cyngor fel a ganlyn:
    - **Effaith Weledol yr Is-orsaf** - Rhoddir ystyriaeth i leihau'r effaith weledol gyda sgrinio trwy blannu coed i'w ystyried. Byddid yn ymgynghori ymhellach ar hyn.
    - **Aflonyddwch** – Roedd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r agweddau hyn gyda ymgynghori pellach i'w gynnal.
    - **Budd Cymunedol** – Roedd cronfa Budd Cymunedol i'w sefydlu. Byddai'r cwmni'n ceisio gweithio gyda thrigolion lleol a sefydliadau ar y ffordd orau o ddefnyddio'r gronfa. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gael ei ystyried i'w gynnwys yn y broses o ddosbarthu arian posib.

    Derbyniwyd e-bost hefyd oddi wrth Bennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith Cyngor Sir Caerfyrddin yn atgoffa aelodau o'r gofynion mewn perthynas â datgan diddordeb yn ymwneud â'r mater hwn.
13. **Glanhau llochesi bws gan Cyngor Sir Caerfyrddin** – Nodwyd bod y gwaith wedi ei wneud.
14. **Gwasanaeth Dathlu'r Coroni yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi –** Darparodd y Cadeirydd adroddiad o'r digwyddiad. Nodwyd.
15. **Un Llais Cymru** – Digwyddiadau hyfforddi. Cymeradwywyd presenoldeb yr Is-Gadeirydd yn y Modiwl Sgiliau Cadeirio a gynhaliwyd ar 25ain Mai. Nodwyd.
16. **Rali Flynyddol CFfI Sir Gaerfyrddin** – Cafwyd adroddiad o'r digwyddiad gan yr Is-Gadeirydd. Bydd llythyr llongyfarch yn cael ei anfon at aelodau CFfI Llanismel a oedd wedi cystadlu yn y Rali.
17. **Data Teithiau Bws Heb eu Bodloni** – Ni nododd y Cyngor Sir unrhyw gofnod o unrhyw deithiau heb eu cyflawni yn y Gymuned ar eu gwasanaethau am y flwyddyn galendr presennol. Cafwyd cadarnhad gan First Bus na fyddent yn darparu unrhyw wybodaeth gan nad oeddent yn dod o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Nodwyd hyn.

**6. Gohebiaeth**

1. **Heddlu Dyfed Powys –** Manylion ymweliadau gorfodi cyflymder ar gyfer Cwmffrwd ac Idole fel a ganlyn:
    - **Cwmffrwd –** 19 ymweliad rhwng Ionawr ac Ebrill 2023 gyda 120 o gerbydau yn uwch na'r uchafswm.
    - **Idole –** 2 ymweliad ym misoedd Mawrth ac Ebrill gyda 25 cerbyd yn uwch na'r uchafswm.
2. **Un Llais Cymru –** Model reolau sefydlog yn dilyn gwelliannau. Bydd y Clerc yn darparu drafft wedi ei ddiweddaru i gyfarfod nesaf y Cyngor.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cau ffordd dros dro ar ddydd Llun 15fed Mai ar yr U2231 yng Nghydweli. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cais am wybodaeth mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad. Cadarnhaodd y Clerc fod y wybodaeth wedi ei ddarparu. Nodwyd.
5. **Un Llais Cymru –** Canllaw Gynghorwyr Da i gyflogaeth. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o ymchwiliad gorfodi mewn perthynas â'r lagŵn slyri yn Nanytgoetre Isaf. Nodwyd.

7. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru –** Arolwg Ffocws ar Ein Dyfodol. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru –** Digwyddiadau hyfforddi. Nodwyd.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Newyddion Diweddaraf. Nodwyd.
10. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –** Gwahoddiad i gyfarfod ar 13fed Mehefin mewn perthynas â Gwasanaethau Brys ac Argyfwng i Blant a Phobl Ifanc (Pediatreg) yn Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili. Nodwyd.
11. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru –** Cylchlythyr. Nodwyd.
12. **Llywodraeth Cymru –** Bwletin Newid Hinsawdd. Nodwyd.
13. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth am y Gynhadledd Arfer Arloesol i'w chynnal ar 5ed Gorffennaf. Nodwyd.
14. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cais am enwebiadau ar gyfer Fforwm Derbyniadau Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad pellach ar yr hawliad yswiriant yn ymwneud â difrod i'r ffens.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Mai gyda cost o £560.00 yn cael ei gytuno. Cymeradwywyd taliad hefyd o £280.00 am waith a wnaed o dan y contract torri gwair yn Idole a Glanmorlais ar gyfer y flwyddyn 2023.

**9. Digwyddiadau Cymunedol 2023**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol 2023 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
  - Nododd y Clerc fod angen darparu gwybodaeth enwebai cyn gynted â phosibl ar gyfer yr adran llysiau.
- Cystadleuaeth Bwgan Brain;
  - Ystyriwyd opsiynau ar gyfer Tarian Ymdrech Gymunedol yn enw Mair Stephens a bydd yn cael ei drafod gyda Ralph Stephens.

**10. Adroddiad Blynyddol 2022-23**

Cyflwynodd y Clerc y ffurflen flynyddol a archwiliwyd fewnol gan Mr. Mark Gower. Derbyniwyd a nodwyd adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ardystio a llofnodi'r ffurflen flynyddol. Nodwyd bod arian wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn £22,731 (£25,518 2021-22).

Cytunodd y Cyngor y Ffurflen Flynyddol a chwblhawyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi'r ffurflen.

Cytunwyd y Cyngor daliad y ffi Archwilio sef £70.00. Byddai llythyr o ddiolch yn cael ei danfon at Mr. Gower hefyd.

Cyflwynodd y Clerc hefyd  Adroddiad Blynyddol drafft y Cyngor am y flwyddyn 2022-23. Cymeradwywyd y ddogfen a bydd yn cael ei chyhoeddi ar y wefan ynghyd â’r hysbysiad cyfrifon.

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith ar yr Adroddiad Flynyddol a Ffurflen Flynyddol a chofnodion ariannol y Cyngor.

**11. Archwilydd Mewnol 2023-24**

Cytunodd y Cyngor i benodi Mr. Mark Gower yn Archwilydd Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24

**12. Cynllunio**

1. **PL/04989 -** Storfa faetholion o bridd (Ailgyflwyno PL/04491 a Wrthodwyd ar 26/09/2022) - Fferm Tirwaun, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DP. Dim gwrthwynebiadau.

**13. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Llangollen 2023 –** Dim cyfraniad.
2. **Gofal Cancr Macmillan –** Cytunwyd rhodd o £50.00.
3. **SSAFA, Elusen y Lluoedd Arfog –** Cytunwyd rhodd o £50.00.

**14. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

**1. Mark Gower** **£70.00** Archwiliad mewnol (gweler eitem 10)

| 2. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Mai a chostau** | **£679.06** | **£26.00**<br>**£11.55**<br>£11.70<br>**£7.00**<br>**£22.00** | **£757.31** | **£274.40** | | **£475.91** |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Safe Products** | **£23.55** | £19.62 gyda £3.93 TAW<br>Cynnyrch selio ar gyfer paneli hanes |
| **4. Janet Knott** | **£384.00** | Costau Cadeirydd 2022-23 |
| **5. Michael Leefe** | **£280.00** | Torri gwair (gweler eitem 8) |
| **6. Michael Leefe** | **£560.00** | Taliad Mai (gweler eitem 8) |
| **7. Gofal Cancr Macmillan** | **£50.00** | Rhodd (gweler eitem 13.2) |
| **8. SSAFA** | **£50.00** | Rhodd (gweler eitem 13.3) |

**15. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nododd y Clerc ei fod wedi adrodd ar y materion canlynol i'r Cyngor Sir
    a. Twll yn y palmant rhwng Bryn Hardd ac Emerald View ar Heol y Lan.
    b. Erydiad y ffordd rhwng Fferm Lan a Lan Cottage. Nodwyd bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau'n gyflym iawn, bydd y Clerc yn anfon nodyn o ddiolch i'r tîm dan sylw.
    c. Arwyddion adborth cyflymdra yn Idole (y ddau gyfeiriad) ddim yn gweithio

    d. Arwydd adborth cyflymder ger Little Bambinos yng Nghwmffrwd, wedi'i guddio gan dyfiant clawdd.
2. Nododd y Clerc ei fod wedi rhoi gwybod am y ciosg ffôn yn Idole nad oedd yn gweithio.
3. Nodwyd ardaloedd lle mae angen torri cloddiau a thyfiant yn y Gymuned fel a ganlyn:
    a. Cornel gyferbyn â'r safle tai gerllaw Penllain, Croesyceiliog.
    b. Ochr dde cyffordd Glanyfferi i gyfeiriad Llandyfaelog, wrth edrych tuag at Cydweli.
    c. Glanant Idole, wrth edrych tuag at Gydweli.
    d. Lôn yr Ysgol, Idole wrth edrych tuag at Gaerfyrddin.
4. Bydd y Clerc yn adrodd am yr angen i adnewyddu'r marciau ildio ar Bont Bolahaul ynghyd â'r angen i dorri'r coed sy'n crogi drosodd yn y lleoliad.
5. Nodwyd bod bin Llandyfaelog yn llawn. Bydd y Clerc yn adrodd y mater.
6. Adroddir nad oedd yr arwydd adborth 30mya yn Bolahaul yn gweithio a bod angen ei lanhau. Bydd y Clerc yn adrodd y mater.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 6ed Gorffennaf 2023.**